# Wythfed Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu – Cofnodion

**Dyddiad:** 11 Mawrth 2014
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Amser:** 12:15

**Yn bresennol:**

- Joyce Watson AC (Llafur Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru), Cadeirydd
- Mark Isherwood AC (Ceidwadwyr Cymreig, Gogledd Cymru)
- Donna Griffiths, CITB Cymru
- Andrea Folland, CITB Cymru
- Nick Wall (Staff Cymorth Mick Antoniw AC; Llafur Cymru, Pontypridd)
- Nitesh Patel (Staff Cymorth Joyce Watson AC)
- Leighton Veale, Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru

*Darparwyd gwasanaethau ysgrifenyddol i'r Grŵp gan gynrychiolwyr o Grayling, ar ran CITB Cymru.*

-----------------------------------

## Eitem 1: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Enwebodd **Mark Isherwood AC** Joyce Watson AC i fod yn gadeirydd. Ni chafwyd gwrthwynebiad.

Cadarnhawyd CITB Cymru fel ysgrifenyddiaeth y grŵp.

## Eitem 2: Yr Ymgyrch Construction4Growth yng Nghymru

Estynnodd **Joyce Watson AC** ddiolch i bawb a oedd yn bresennol.

Esboniodd **Donna Griffiths** brif bwyntiau a phwrpas yr Ymgyrch Construction4Growth. Esboniodd fod y maniffesto – cynllun deg pwynt i gefnogi twf economaidd drwy adeiladu – wedi dod i fodolaeth oherwydd awydd i wneud y gorau o'r adferiad a ragwelir yn y diwydiant adeiladu drwy roi hwb cadarnhaol i'r diwydiant.

Eitem 3: Trafodaeth

Nododd **Joyce Watson AC** fod yr ymgyrch yn codi pwyntiau diddorol iawn, ac y gallai fod angen dadl ehangach ar y beichiau rheoleiddio ar y diwydiant adeiladu, er enghraifft ar gyfer systemau chwistrellu dŵr adeg tân yn y cartref.

Gofynnodd pam nad oedd hyfforddiant peiriannau trymion ar gael yn ne-ddwyrain Cymru.

Dywedodd **Donna Griffiths** fod hynny oherwydd nad oes darpariaeth addysg bellach yn yr ardal.

Gofynnodd **Joyce Watson AC** am eglurhad ynghylch sut gallai gweithwyr yn ne-ddwyrain Cymru ddefnyddio peiriannau trymion os nad oedd hyfforddiant ar gael.

Ychwanegodd **Donna Griffiths** fod cwmnïau yn cynnig rhywfaint o hyfforddiant preifat yn fewnol, ond nad oes hyfforddiant ar gael i brentisiaid drwy lwybrau addysg bellach. Mae rhywfaint o hyfforddiant ar gael yn Lloegr, ond byddai hynny'n golygu bod rhaid i brentisiaid deithio gan adael eu teuluoedd a'u lleoliad cyflogaeth/gwaith.

Gofynnodd **Leighton Veale** am eglurhad ynghylch sut byddai'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol yn cael ei ariannu (un o'r pwyntiau a nodwyd yn ymgyrch Construction4Growth yng Nghymru).

Esboniodd **Donna Griffiths** y byddai angen cyllid cyfalaf o ffynonellau preifat, cyhoeddus neu Ewropeaidd. Ychwanegodd y gallai mapio cyflenwad sgiliau a'r galw amdanynt helpu gyda gwariant effeithlon. Ar hyn o bryd, nid oes llawer o hyfforddiant treftadaeth a sgiliau gwyrdd ar gael. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o brentisiaethau yn canolbwyntio ar osod brics, gwaith coed a phlymwaith. Nid yw'r sbectrwm ehangach o brentisiaethau yn cael ei gydnabod.

Nododd **Mark Isherwood AC** fod nifer o gyrff sy'n gysylltiedig â'r sector adeiladu wedi sôn am gyfanswm cost rheoleiddio. Gofynnodd a oedd cyfanswm ar gael ar gyfer yr holl gostau. Gofynnodd a yw'r diwydiant wedi llwyddo i ddechrau deialog gyda'r Gweinidog ynghylch rheoleiddio.

Ychwanegodd Mark Isherwood fod grŵp adeiladu rhanbarthol Gogledd Cymru hefyd wedi sôn am yr ymarferion cyn-caffael a'r amser maent yn cymryd. Aeth ymlaen i nodi, o ran y Coleg Adeiladu Cenedlaethol, bod pethau'n symud oddi wrth golegau

arbenigol. Pa drafodaethau mae CITB wedi cael i lenwi'r bylchau yn y rhwydweithiau darparu hyfforddiant presennol?

Esboniodd **Donna Griffiths** fod CITB wedi gweithio gyda phob coleg addysg bellach ac wedi gwneud llawer o ymchwil. Mae ColegauCymru yn cefnogi'r cysyniad, fel y mae Cymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain (BACH), a bydd yn gweithio i lenwi'r bylchau hynny yn y ddarpariaeth o hyfforddiant. Ychwanegodd, o ran caffael, bod yr ymgyrch yn galw am ddefnyddio'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID), a fyddai'n mynd i'r afael â rhai o bryderon Mark Isherwood ynghylch holiaduron cyn-caffael a'r gwaith papur cysylltiedig.

O ran y baich rheoleiddio, mae'r amcangyfrif ar gyfer cyfanswm y costau yn amrywio rhwng £7,000 a £10,000 fesul cartref erbyn 2016.

Gofynnodd **Mark Isherwood AC** sut y byddai'r costau ychwanegol hyn yn effeithio ar y farchnad.

Esboniodd **Donna Griffiths** nad oedd CITB wedi edrych ar hynny'n uniongyrchol, ond bod partneriaid eraill o fewn y diwydiant wedi; dyna pam mae'r diwydiant yn dod at ei gilydd i ymgyrchu dros newid.

Gofynnodd **Mark Isherwood AC** pa lefel o ymgysylltu sydd wedi bod â Llywodraeth Cymru.

Esboniodd **Donna Griffiths** fod CITB wedi cwrdd â Gweinidogion yn ogystal ag ymateb i ymgynghoriadau.

Nododd **Joyce Watson AC** fod nifer o Weinidogion â phortffolios sy'n berthnasol i'r ymgyrch, gan gynnwys cynllunio, sgiliau a chaffael. Ychwanegodd fod hyn yn dangos pwysigrwydd y sector adeiladu yng Nghymru, gan ei fod yn drawsbynciol.

Gofynnodd Joyce Watson a fyddai'n syniad da pe bai cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn canolbwyntio ar fater penodol sydd wedi'i amlinellu ym maniffesto Construction4Growth, a gofyn i Weinidog fod yn bresennol i ymateb i'r pwyntiau perthnasol.

Awgrymodd **Donna Griffiths** y byddai hynny'n ffordd dda i symud ymlaen.

Aeth **Joyce Watson AC** ymlaen i nodi bod caffael yn darparu nifer o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn gyffredinol gefnogol

ac y byddai'n fuddiol i archwilio beth yw'r prif rwystrau sy'n atal hynny rhag dod yn realiti.

Esboniodd **Donna Griffiths** fod anghysondeb o ran mabwysiadu dulliau megis SQuID yn rhwystr mawr.

Awgrymodd **Joyce Watson AC** y gellir cysylltu â Jane Hutt i ddod i drafod caffael yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol. Roedd yn croesawu maniffesto Construction4Growth, gan ychwanegu y bydd elfennau ohono na fyddant yn ennyn cefnogaeth unfrydol. Ychwanegodd, pan fu Ann Jones AC yn ymgynghori ar ei ddeddfwriaeth systemau chwistrellu dŵr adeg tân, y bu diffyg ymateb gan y diwydiant. Ychwanegodd nad oedd y cyfrifoldeb bob amser ar y Llywodraeth.

Gofynnodd **Nitesh Patel** a oedd unrhyw ffigurau ar gael ar gyfer colegau addysg bellach.

Dywedodd **Donna Griffiths** fod CITB yn y broses o lunio cynllun busnes ar gyfer y Coleg Adeiladu Cenedlaethol. Byddai'r Coleg yn cael ei leoli rywle ar hyd coridor yr M4.

Nododd **Mark Isherwood AC** fod pedwar o'r colegau yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd hefyd yng Ngogledd Cymru, ac efallai y gellir archwilio'r opsiwn hwnnw.

Esboniodd **Donna Griffiths** fod y cysyniad yn seiliedig ar bartneriaeth sy'n bodoli eisoes yng Ngogledd Cymru, sydd wedi cael cymorth gan Goleg Adeiladu Cenedlaethol Lloegr.

Gofynnodd **Nitesh Patel** a fyddai'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol newydd yn gyfochrog â cholegau addysg bellach.

Esboniodd **Donna Griffiths** y byddai'r Coleg arfaethedig ar gyfer Cymru yn atodol i'r ddarpariaeth addysg bellach bresennol.

Nododd **Nick Wall** fod y cynllun ar gyfer y Coleg Adeiladu Cenedlaethol yn debyg i waith a wnaed gan Goleg y Cymoedd. Gofynnodd beth oedd lefel y galw am sgiliau treftadaeth.

Esboniodd **Donna Griffiths** fod ymchwil yn awgrymu bod galw sylweddol am y sgiliau hynny. Cafodd dwy ran o dair o stoc adeiladau Cymru eu hadeiladu cyn 1919, sy'n golygu eu bod yn eiddo 'treftadaeth'. Mae hynny'n cynnwys y tai teras nodweddiadol yng nghymoedd de Cymru.

Ychwanegodd **Joyce Watson AC** fod enghreifftiau yn Sir Gâr a Blaenau Ffestiniog lle mae prosiectau treftadaeth wedi arddangos bod angen y sgiliau hyn, yn ogystal ag arddangos pa ddeunyddiau sydd eu hangen. Mae'r gwaith caib a rhaw wedi'i wneud.

Yn Sir Gâr, cafwyd arwydd bod prinder sgiliau yn y maes hwn. Bydd angen rhai o'r sgiliau hyn ar gyfer cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Ychwanegodd y dylai'r dull hwn fod yn ymwneud ag agenda cydgysylltiedig o fewn Llywodraeth Cymru. Y gwir amdani yw bod arnom angen y sgiliau hyn, os nad yw Llywodraeth Cymru am i bobl fyw mewn tai o ansawdd gwael.

Ychwanegodd **Mark Isherwood AC** ei fod wedi cael cyfarfodydd gyda chynghorwyr sy'n dal i awgrymu fod bwlch rhwng yr hyn y mae cynghorau yn ei ddweud a'r hyn maent yn ei fodlon dweud yn gyhoeddus am reoliadau. Dywedodd bod rhaid ystyried effaith cost rheoliadau a bod angen mwy o dystiolaeth am gost rheoliadau yng Nghymru, a dadansoddi beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol o ran swyddi, buddsoddi a sgiliau.

Dywedodd **Joyce Watson AC** ei bod yn argyhoeddedig, yn y pen draw, y bydd y cyhoedd yn mynnu cael systemau chwistrellu dŵr adeg tân yn eu cartrefi er mwyn teimlo'n ddiogel; yn union fel y maent yn disgwyl safonau mewn meysydd eraill. Mae technoleg yn esblygu; bydd disgwyliadau yn newid. Mae £5,000 dros 25 mlynedd yn gost fach a bydd croeso i'r hyn y gall ei gyflawni - mae angen dadl onest ynghylch cost rheoleiddio.

Atebodd **Leighton Veale** y byddai defnyddwyr yn debygol o wrthod costau ychwanegol, waeth pa mor fach ydynt. Os byddai tân, mae gan gartrefi newydd ddrysau tân a larymau mwg trydanol, a byddai'r rhan fwyaf o bobl yn awgrymu bod hynny'n ddigonol.

Awgrymodd **Joyce Watson AC** fod angen dangos bod diffyg galw.

Dadleuodd **Leighton Veale**, o safbwynt y diwydiant pensaernïol, nad oes llawer o dystiolaeth bod systemau chwistrellu dŵr adeg tân yn achub bywydau.

Awgrymodd **Joyce Watson AC** fod tystiolaeth ar gael.

Atebodd **Leighton Veale** fod hynny ond yn berthnasol mewn neuaddau preswyl neu gartrefi gofal, ac nad yw mor berthnasol mewn datblygiadau tai bob dydd.

Nododd **Mark Isherwood AC** fod yr elusen Atal Tân (Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol Cymru) wedi gofyn i gael gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch tân. Nid yw'r math o ddata sydd ei angen i asesu effaith systemau chwistrellu dŵr adeg tân ar gael ar hyn o bryd, a hyd nes y bydd ar gael, mae'r bobl sy'n deddfu yn “p*****g in the dark.”

Daeth **Joyce Watson AC** a'r cyfarfod i ben. Nododd bwynt gweithredu i wahodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid, i annerch cyfarfod yn y dyfodol i drafod sut y gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio polisïau caffael i adael etifeddiaeth ar gyfer unigolion a chymunedau.

Awgrymodd **Mark Isherwood AC** y dylid hefyd wahodd Carl Sargeant AC i gyfarfod yn y dyfodol i drafod effaith rheoliadau ar y sector adeiladu.

<u>Camau Gweithredu</u>

- Gwahodd Jane Hutt AC i ddod i gyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu yn y dyfodol ar gaffael.